Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

**FFORWM CYLLID YSGOLION**
**Dydd Mawrth, 19 Medi 2023**
**(Canolfan Dinesig)**

## NODIADAU

**YN BRESENNOL:**

Keith Maher (Ysgol Uwchradd Pen y Dre) - Cadeirydd
Stuart James (Afon Taf)
Sarah Hopkins (Blessed Carlo Acutis)
Owen Morgan (Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa)
Rhiannon Stephens-Davies (Ysgol Arbennig Greenfield)
Anna Morris (Ysgol Gymunedol Heolgerrig)
Alwen Bowen (Rhyd y Grug)
Simone Roden (Ysgol Gymunedol Ynysowen)
David Anstee (Ysgol Gynradd y Graig)
Sue Walker (Cyfarwyddwr Addysg)
Steve Jones (Prif Swyddog Cyllid)
Cynghorydd Andrew Barry (Portffolio'r Cabinet ar gyfer Llywodraethu ac Adnoddau)
Anthony Lewis (Pennaeth Cynllunio, Cymorth ac Adnoddau Ysgolion)
Laurence Matuszczyk (Ysgol Gynradd Edwardsville)
Paul Phillips (Ysgol Gynradd Gellifaelog)
Garhard Williams (Cynrychiolydd Undeb Llafur)

**YN GWEINYDDU:**

Phil Strand (TGaCh Ysgolion)
Joanna Lewis (Rheolwr LMS)
Ian Kent (Cyfrifydd Addysg)
Gary Winston (Clerc y Fforwm)

**:** Mike O'Neill (Ysgol Uwchradd Pen y Dre)

| RH IF | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Croesawyd aelodau i gyfarfod cyntaf y flwyddyn academaidd. |
| 2. | **Ethol Cadeirydd**<br>Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd a derbyniwyd un enwebiad - Mr Keith Maher.<br><br>Cafodd Mr Maher ei ethol yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod. |
| 3. | **Ethol Is-gadeirydd**<br>Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd a derbyniwyd un enwebiad - Mr David Anstee.<br><br>Cafodd Mr Anstee ei ethol yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod. |
| 4. | **Ffiorwm Cyllideb Ysgolion – Cylch Gorchwyl** |

| RH IF | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | Adolygodd yr aelodau y Cylch Gorchwyl a chytunwyd i'w dderbyn heb ddiwygiad. |
| 5. | **<u>Aelodaeth Fforwm Cyllideb Ysgolion</u>**<br>Croesawodd y Cadeirydd, Anna Morris i'w chyfarfod cyntaf fel Cynrychiolydd Penaethiaid Cynradd. Diolchwyd i Ryan Morgan am ei waith â'r grŵp.<br><br>Nodwyd fod dwy swydd wag ar gael; Cynrychiolwyr Llywodraethwyr ar gyfer Clwstwr Afon Taf/Cyfarthfa a'r Clwstwr Gwirfoddol/Ysgolion Arbennig.<br><br>Os nad oedd diddordeb yn y swyddi, byddai rhaid gofyn i'r Gymdeithas Llywodraethwyr i ddod o hyd i gynrychiolwyr. |
| 6. | **<u>Grŵp Gwaith Fforwm Cyllideb Ysgolion</u>**<br>Cytunodd aelodau i'r aelodaeth ganlynol ar gyfer 2023/2024:<br><br>• David Anstee (Cadeirydd)<br>• Rhiannon Stephens-Davies<br>• Stuart James<br>• Sarah Hopkins<br>• Owen Morgan<br>• Alwen Bowen<br>• Simone Roden<br>• Anthony Lewis |
| 7. | **<u>Cofnodion</u>**<br>Cytunwyd fod cofnodion cyfarfodd 11 Gorffennaf 2023 yn gofnodion cywir. Esboniodd y Cadeirydd fod rhannau o'r cofnodion wedi cael eu golygu er mwyn sicrhau cyfrinachedd masnachol. |
| 8. | **<u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**<br><u>(8.01) Dyraniad Fformiwla - AAY</u><br>Darparodd Anthony Lewis fanylion ynghylch y gwariant 5% tybiannol ar gyfer y dyraniad AAY. Cytunwyd y byddai'n cael ei ddosbarthu i aelodau. |
| 9. | **<u>MIS/SIMS mewn Ysgolion/Cymru</u>**<br>Darparodd Phil Strand ddiweddariad ynghylch y sefyllfa gyfredol ac esboniodd fod yr ESS yn mynd yn eu blaenau â'r telerau a'r amodau newydd ac y byddai'n gofyn i ysgolion arwyddo cytundebau newydd.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru, CLlLC ac Awdurdodau Lleol eraill ar y mater hwn a'r opsiwn a ffefrir yw cytuno â'r contract newydd gan ESS, yn destun bod ymholiadau cytundebol yn cael eu dartrys gan ein Tîm Cyfreithiol. Mae'r llinell amser yn nodi y dylai'r contract gael ei arwyddo ym mis Hydref ac i'r wybodaeth gael ei mudo i'r system newydd cyn ddiwedd y flwyddyn.<br><br>Mae cyfarfod yn cael ei gynnal â Phenaethiaid, Ddydd Gwener er mwyn pennu'r ffordd ymlaen ac rydym yn gofyn i'r grŵp hwn leisio cefnogaeth. Ni all yr ALl negodi contract gan y byddant yn cael eu cynnal gan ysgolion unigol, fodd bynnag, byddem yn ffafrio fod pob ysgol yn cytuno ar ddull gwaith |

| RH IF | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | ar y cyd a dilyn canllawiau a chyngor y Fforwm Cyllideb Ysgolion gan y byddai'n diogelu ysgolion wrth wneud penderfyniadau yn y maes hwn.<br><br>Cytunodd aelodau y dylid cytuno, mewn egwyddor i ysgolion arwyddo'r contractau 3 mlynedd newydd, yn destun fod yr awdurdod lleol yn derbyn y sicrwydd cyfreithiol cywir.<br><br>Bydd gofyn cael cytundeb gan Benaethiaid a'r Cadeirydd/Is-gadeiryddion er mwyn dilyn cyfeiriad y Fforwm Cyllideb Ysgolion. |
| **10.** | <u>**Fforwm Cyllideb Ysgolion – Rhaglen Waith 2023/2024**</u><br>Cyflwynodd Joanna Lewis Raglen Waith ddrafft ar gyfer y flwyddyn academaidd hon.<br><br>**PP: Pam fod dadansoddiad caffael yn eitem barhaol?**<br>JL: Mae Caffael yn gwneud llawer o waith er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian. Mae wedi'i gynnwys gan y bydd diweddariadau datblygiad.<br><br>AL: Mae wedi'i ddynodi ond os nad oes dim byd newydd i'w drafod, ni fydd, o angenrheidrwydd yn eitem ar yr agenda.<br><br>AB:- Mae caffael yn flaenoriaeth ar gyfer yr Awdurdod Lleol. Rydym yn gwybod ein bod yn talu mwy am rai nwyddau a gwasanaethau ac nid yw hyn yn dderbyniol. Rydym yn trefnu digwyddiad lle y bydd darparwyr llai yn derbyn cyfle i dendro ar gyfer gwasanaethau a gobeithio y bydd hyn o fudd.<br><br>SW: Mae Datganiad yr Hydref yn hwyr ym mis Tachwedd ac efallai y bydd rhaid i ni ddod â dyddiad mis Rhagfyr ymlaen.<br><br>KM: Llynedd, cawsom gyfarfod arbennig i drafod y setliad cyllidebol ddechrau Ionawr ac rwy'n teimlo y byddai trefniant tebyg o fudd eleni.<br><br>Cytunodd aelodau i ddod â Chyfarfod FfCY ymlaen i 5 Rhagfyr. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyfarfod arbennig ar ddechrau Ionawr er mwyn trafod diweddariad ynghylch setliad y Cyngor. Byddai angen cytuno ar ddyddiad yn nes at yr amser.<br><br>**LM: Gwelaf fod yr Adolygiad Cyllido Fformiwla AAY wedi'i gynnwys. Beth yw'r cynllun?**<br>AL: Mae trefniadau pontio yn eu lle ar hyn o bryd i gefnogi symudiad i'r gofrestr AAY ac rydym yn adiolygu hyn yn flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio. |
| **11.** | <u>**Tiwtoriaeth Arbennig/Adfachiadau**</u><br>Nododd Joanna Lewis fod y grŵp wedi trafod o'r blaen os dylai cyllid PDG gael ei gynnwys mewn unrhyw gyfrifiad tiwtoriaeth arbennig/adfachiadau. Cyflwynwyd papur yn manylu ar ddau opsiwn posib ar gyfer cynnwys PDG mewn unrhyw gyfrifiad.<br><br>Byddai angen trafod yn y Grŵp Gwaith a chytuno erbyn Ionawr er mwyn i unrhyw newidiadau gael eu gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. |

| RH IF | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | **PP: Mae'r egwyddor yn gadarn ond mae ysgolion yn derbyn y cyllid ar ddechrau'r flwyddyn a byddent wedi'i gadarnhau wrth iddynt osod cyllidebau.**<br>KM: Pwynt pwysig sydd angen ystyriaeth ofalus.<br><br>PP: Efallai y bydd staff wedi derbyn contractau ac na fydd posib dod â hwy i ben yn gynnar.<br><br>OM: Mae llun ehangach a lle ydym am dynnu'r llinell os bydd plentyn yn pontio, er enghraifft i ysgol arall? Mae gennym rai problemau â PDG.<br><br>Cytunwyd y dylai'r Grŵp Gwaith drafod ymhellach. |
| **12.** | <u>**Datganiad Adran 52**</u><br>Cyflwynodd Joanna Lewis Fwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru, 'Gwariant Cyllidebol Llywodraeth Leol i Ysgolion 2023/2024'. Nodwyd y pwyntiau canlynol:<br><br>• Roedd gwariant cyllidebol net i ysgolion ym Merthyr Tudful yn £63.9 miliwn yn 2023/2024, cynnydd o £5.9 miliwn (10.3%).<br>• Roedd Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion ym Merthyr Tudful yn 2023/2024 yn £15.2 miliwn, cynnydd o £4 miliwn a chyfradd ddirprwyedig o 79.3% neu 83.7%, ag eithrio cludiant o'r cartref i'r ysgol.<br><br>**SR: Sut mae'r lefelau dirprwyedig yn cymharu â'r awdurdodau sydd yn perfformio orau?**<br>SW: Does dim gwybodaeth i'w chymharu.<br><br>KM: Byddai hefyd yn anodd mesur perfformiad gorau. Mae Ysgolion Uwchradd wedi bod yn gweithio i addasu data perfformiad yn ystod y pandemig.<br><br>Gallwn nodi'r wybodaeth hon. |
| **13.** | <u>**Balansau Ysgolion**</u><br>Esboniodd Anthony Lewis fod adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yr wythnos hon ar 'Falansau Ysgolion a Chynlluniau Cyllidebol yn y Tymor Canolig.'<br><br>Cymharodd yr adroddiad sefyllfa gyllidebol ysgolion yn y cyfnod cyn y pandemig ac yn awr. Dangosir fod balansau ysgolion yn lleihau cyn y pandemig ond eu bod wedi cael hwb sylweddol yn ystod y pandemig, yn sgil cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Roedd gan gyllidebau ysgolion yn 2022/2023 falansau rhagdybiedig o £3.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn wrth i ysgolion gynllunio defnyddio cyfran helaeth o'u balansau ychwanegol. Mae'r balans rhagdybiedig ar ddiwedd 2023/2024 yn nodi y bydd wedi gostwng i £1.54 miliwn a'i fod yn agos i ffigurau cyn y pandemig.<br><br>Arweiniodd hyn at ostyngiad o 45 o swyddi mewn ysgolion (17 Dysgu a 28 Cynorthwyydd Cymorth Dysgu) yn ystod y flwyddyn gyfredol wrth i ysgolion addasu gwariant i gydbwyso eu cyllidebau. Arweiniodd saith swydd at daliadau dileu swyddi ond ni chafwyd unrhyw ddileu swyddi gorfodol. |

| RH IF | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | Nid yw'n wybyddus beth yw goblygiadau llawn y gostyngiadau cyllidebol a wnaethpwyd llynedd a bydd ysgolion yn ystyried rhagor o doriadau staffio er mwyn cydbwyso balansau 2024/2025.<br><br>PP: Gallaf awgrymu nad ydym yn gwneud penderfyniadau'n rhy gyflym ar gyllidebau 2024/2025. Efallai na fydd Datganiad Cyllid yr Hydref gynddrwg gan ein bod yn symud i flwyddyn etholiad cyffredinol. Mae ysgolion eisoes wedi tocio eu lefelau staffio drwy hepgor swyddi dros dro. Y cam neaf fydd swyddi parhaol. |
| **14.** | **<u>Unrhyw fusnes arall</u>**<br><br>14.01 <u>Cytundebau Lefel Gwasanaeth</u><br>JL: Dosbarthwyd Holiadur Gwerthuso CLG i ysgolion y tymor diwethaf ond bach iawn o ymateb a gafwyd a hynny yn sgil gweithredu cyfredol ASOS. Fel arfer, byddwn yn defnyddio'r gwerthusiad er mwy pennu os yw'r grŵp yn dymuno adolygu unrhyw CLG cyn iddynt gael eu hadnewyddu yn Ebrill 2024. Mae angen i'r grŵp gytuno ar y ffordd ymlaen. Yr opsiynau yw:<br><br>• Gofyn i ysgolion os ydynt am ddiwygio unrhyw CLG, neu<br>• Mae'r grŵp hwn yn gwneud y penderfyniad.<br><br>SR: Mae hyn bob amser yn anodd. Bach iawn rydym yn ei wybod am rai CLG fel Credydwyr/y Gyflogres. Maent yn gwneud yr hyn sydd ei angen ond ni allwn wneud sylw ynghylch os gallant wneud yn well neu fod yn fwy cost effeithlon. Mae gan benaethiaid yr un problemau â'r un gwasanaethau fel Gwasanaethau Eiddo ond bach iawn sydd yn newid.<br><br>KM: Fel Pennaeth, mae rhai gwasanaethau yn cael eu trafod yn rheolaidd – Gwasanaethau Eiddo, Arlwyo ac AD.<br><br>SW: Cawsant eu hadolygu dair mlynedd yn ôl ac efallai ei fod yn gyfle i wneud hynny eto.<br><br>Cytunwyd y dylid adolygu Gwasanaethau Eiddo, Arlwyo ac AD.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn brsennol gan ddirwyn y cyfarfod i ben. |